OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1721 (Cy.167)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru o 1 Gorffennaf 2008 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru ar 1 Gorffennaf 2008.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1721 (W.167)

## THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The North East Wales National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for the transfer of staff from North East Wales National Health Service Trust to the North Wales National Health Service Trust from the 1 July 2008.

This Order also provides for the transfer of all property, rights and liabilities of the North East Wales National Health Service Trust to be transferred to the North Wales National Health Service Trust on 1 July 2008.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1721 (Cy.167)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 29 o Atodlen 3 iddi(**1**) ac ar ôl cwblhau'r ymgynghori statudol fel y'i rhagnodwyd o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") "yw 1 Gorffennaf 2008;

ystyr "yr hen ymddiriedolaeth" ("*the old trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru a sefydlwyd ar 4 Ionawr 1999;

ystyr "yr ymddiriedolaeth newydd" ("*the new trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru a sefydlwyd ar 25 Mehefin 2008.

(**1**) 2006. p.42.

(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. p.43.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1721 (W.167)

# THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The North East Wales National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *30 June 2008* |
| *Coming into force* | *1 July 2008* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by section 203(9) and (10) and paragraph 29 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**); after completion of statutory consultation as prescribed under paragraph 29(4) of that Act(**2**), hereby make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1**.—(1) The title of this Order is the North East Wales National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008 and it comes into force on 1 July 2008.

(2) In this Order, unless the context otherwise requires:

"the new trust" ("*yr ymddiriedolaeth newydd*") means the North Wales National Health Service Trust established on 25 June 2008.

"the old trust" ("*yr hen ymddiriedolaeth*") means North East Wales National Health Service Trust established on 4 January 1999

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means the 1 July 2008;

(**1**) 2006 c. 42.

(**2**) National Health Service Trusts (Consultation on Establishment and Dissolution) Regulations 1996, S.I 1996/563, which continues to have effect by virtue of paragraph 1(2) of Schedule 2 to the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006 c.43.

**Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai**

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw'n effeithiol fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogir felly a'r ymddiriedolaeth newydd.

(2) Heb ragfarnu paragraff (1) uchod—

(a) yn rhinwedd yr erthygl hon, trosglwyddir yr holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan gontract neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr hen ymddiriedolaeth neu mewn perthynas â hi ynglŷn â'r contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen wedi'i wneud gan yr ymddiriedolaeth newydd neu mewn perthynas â hi.

(3) Nid yw paragraffau (2) a (3) uchod yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan unrhyw gyflogai i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol er niwed i'r cyflogai yn ei amodau gwaith, ond ni fydd unrhyw hawl o'r fath yn codi yn unig oherwydd y newid mewn cyflogwr a bernir gan yr erthygl hon.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3**. Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r hen ymddiriedolaeth, sydd heb eu crybwyll yn erthygl 2 uchod, i'r ymddiriedolaeth newydd gan gynnwys heb gyfyngiad—

(a) y ddyletswydd i baratoi'r cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen ymddiriedolaeth a chyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny;

(b) eiddo ymddiriedol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 1.

(c) elusennau'r hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 2.

**Trosglwyddo swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd**

**4**. Trosglwyddir holl swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd a byddant yn cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

**Transfer of employees to the transferee**

**2**.—(1) Subject to paragraph (3), any person who immediately before the transfer date, was employed by the old trust shall have their contract of employment transferred to the new trust on the transfer date and that contract will have effect as if originally made between the person so employed and the new trust.

(2) Without prejudice to paragraph (1) above —

(a) all the rights, powers, duties and liabilities under or in connection with a contract to which that paragraph applies will, by virtue of this article, be transferred to the new trust on the transfer date;

(b) anything done before that date by, or in relation to, the old trust in respect of that contract or that employee, will be deemed from the transfer date to have been done by, or in relation to, the new trust.

(3) Paragraphs (1) and (2) are without prejudice to any right of any employee to terminate his or her contract of employment if a substantial change is made to his or her detriment in his or her working conditions, but no such right shall arise by reason only of the change in employer effected by this article.

**Transfer of property, rights and liabilities**

**3**. On the transfer date all the property, rights and liabilities of the old trust, not referred to in article 2 above, shall be transferred to the new trust, including without limitation—

(a) the duty to prepare the outstanding accounts of the old trust and to perform all statutory duties relating to those accounts;

(b) the trust property of the old trust listed in Schedule 1;

(c) the charities of the old trust listed in Schedule 2.

**Transfer of functions of the old trust to the new trust**

**4**. With effect from the transfer date, all the functions of the old trust are transferred to the new trust.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

30 Mehefin 2008

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

30 June 2008

## ATODLEN 1

Erthygl 3(b)

| *Eiddo* | *Deiliadaeth* | *Rhif Teitl os yw'n gymwys* |
|---|---|---|
| **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru** | | |
| Ysbyty Maelor, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD | Rhydd-ddaliad | WA870737<br>CYM42719<br>CYM237895<br>CYM338301<br>CYM402467 |
| ALAC, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD | Les-ddaliad | WA577800 |
| Athrofa Feddygol Wrecsam, Parc Technoleg Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD | Les-ddaliad | WA735281 |
| **Ysbytai Cymuned** | | |
| Ysbyty Cymuned Y Waun, Oddi ar Stryd St John, Y Waun, LL14 5LN | Rhydd-ddaliad | WA690433 |
| Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy, Lon yr Aradr, Glannau Dyfrdwy, CH5 1XS | Rhydd-ddaliad | WA665892<br>WA665897<br>WA665896<br>WA8800203 |
| Ysbyty Cymuned y Fflint, Hen Ffordd Llundain, Fflint, CH6 5HG | Rhydd-ddaliad | WA703713 |
| Ysbyty Cymuned yr Wyddgrug, Llwyn Onn, Yr Wyddgrug, CH7 1XG | Rhydd-ddaliad | WA690437 |
| Ysbyty Cymuned Treffynnon, Ffordd Helygain, Treffynnon, CH8 7TZ | Rhydd-ddaliad | WA703333 |

## SCHEDULE 1

Article 3(b)

| *Property* | *Tenure* | *Title number where applicable* |
|---|---|---|
| **North East Wales National Health Service Trust** | | |
| Maelor Hospital, Croesnewydd Road, Wrexham, LL13 7TD | Freehold | WA870737<br>CYM42719<br>CYM237895<br>CYM338301<br>CYM402467 |
| ALAC, Croesnewydd Road, Wrexham, LL13 7TD | Leasehold | WA577800 |
| Wrexham Medical Institute, Wrexham Technology Park, Croesnewydd Road, Wrexham, LL13 7TD | Leasehold | WA735281 |
| **Community Hospitals** | | |
| Chirk Community Hospital, Off John's Street, Chirk, LL14 5LN | Freehold | WA690433 |
| Deeside Community Hospital, Plough Lane, Aston, Deeside, CH5 1XS | Freehold | WA665892<br>WA665897<br>WA665896<br><br>WA8800203 |
| Flint Community Hospital, Cornist Road, Flint, CH6 5HG | Freehold | WA703713 |
| Mold Community Hospital, Ash Grove, Mold, CH7 1XG | Freehold | WA690437 |
| Holywell Community Hospital, Halkyn Road, Holywell, CH8 7TZ | Freehold | WA703333 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysbyty Pwylaidd Llannerch Banna, Ffordd Whitchurch, Llannerch Banna, LL13 0LH | Rhydd-ddaliad | CYM128343 | Penley Rehab Hospital, Whitchurch Road, Penley, LL13 0LH | Freehold | CYM128343 |
| Coed Celyn, a Sŵn Y Coed, Ffordd y Gelli, Wrecsam, LL11 1DY, | Rhydd-ddaliad | WA784910 | Coed Celyn, and Swn Y Coed, Grove Road, Wrexham, LL11 1DY | Freehold | WA784910 |
| Ysbyty Treffynnon (Y Bwthyn), Pen-y-Maes, Treffynnon, CH8 7UH | Rhydd-ddaliad | WA690436 | Holywell Cottage Hospital, Pen-y-Maes, Holywell, CH8 7UH | Freehold | WA690436 |
| **Clinigau/ Canolfannau Iechyd** | | | **Health Clinics/Centres** | | |
| Clinig Cefn Mawr Cefn Mawr, Rhiwabon, LL14 3AE | Rhydd-ddaliad | WA693355 | Cefn Mawr Clinic, Well Street, Cefn Mawr, Ruabon, LL14 3AE | Freehold | WA693355 |
| Canolfan Iechyd Rhosllannerchrugog Rhodfa'r Ffawydden, Rhosllannerchrugog, LL14 1AA | Rhydd-ddaliad | WA701596 | Rhosllannerchrugog Health Centre, Beech Ave, Rhosllannerchrugog, LL14 1AA | Freehold | WA701596 |
| Clinig Rhiwabon Stryd Fawr, Rhiwabon, LL14 6NH | Rhydd-ddaliad | WA690464 | Ruabon Clinic, High Street, Ruabon, LL14 6NH | Freehold | WA690464 |
| Canolfan Iechyd Brymbo, Stryd Offa, Brymbo, LL11 5AG | Rhydd-ddaliad | WA690452 | Brymbo Health Centre, Offa Street, Brymbo, LL11 5AG | Freehold | WA690452 |
| Clinig Brynteg, Ffordd Darby, Brynteg, Wrecsam, LL11 6RN | Rhydd-ddaliad | WA690453 | Bryn Teg Clinic, Darby Road, Southsea, Wrexham, LL11 6RN | Freehold | WA690453 |
| Clinig Coedpoeth, Ffordd yr Efail, Coedpoeth, Wrecsam, LL11 3NS | Rhydd-ddaliad | WA704909 | Coedpoeth Clinic, Smithy Road, Coedpoeth, Wrexham, LL11 3NS | Freehold | WA704909 |
| Canolfan Iechyd Gresffordd, Rhodfa Poplys, Gresffordd, LL12 8EP | Rhydd-ddaliad | WA690474 | Gresford Health Clinic, Poplar Ave, Gresford, LL12 8EP | Freehold | WA690474 |
| Clinig Ffordd y Gelli Wrecsam, LL11 1DY | Rhydd-ddaliad | WA784910 | Grove Road Clinic, Wrexham, LL11 1DY | Freehold | WA784910 |
| Canolfan Iechyd Llai Lôn yr Ysgol, Llai LL12 0TR | Rhydd-ddaliad | WA703720 | Llay Health Centre, School Lane, LL12 0TR | Freehold | WA703720 |
| Clinig Ffordd Tywysog Charles, Wrecsam, Ffordd Tywysog Charles, Wrecsam, LL13 8TH | Rhydd-ddaliad | WA690471 | Prince Charles Road, Wrexham, Prince Charles Road, Caia Park, Wrexham, LL13 8TH | Freehold | WA690471 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Clinig Rhostyllen Stryd Iago, Rhostyllen, LL14 4AW | Rhydd-ddaliad | WA690462 | Rhostyllen Clinic, James Street, Rhostyllen, LL14 4AW | Freehold | WA690462 |
| Clinig Yr Orsedd, Y Llain, Yr Orsedd, LL12 0EA | Rhydd-ddaliad | WA610333 | Rossett Clinic, The Green, Rossett, LL12 0EA | Freehold | WA610333 |
| Clinig Brychtyn, Ffordd Neuadd Brychtyn, Brychtyn, CH4 0QQ | Rhydd-ddaliad | WA703724 | Broughton Clinic, Broughton Hall Rd, Broughton, CH4 0QQ | Freehold | WA703724 |
| Canolfan Iechyd Bwcle, Ffordd Padeswood, Bwcle, CH7 2JL | Rhydd-ddaliad | WA690473 WA765301 | Buckley Health Centre, Padeswood Road, Buckley, CH7 2JL | Freehold | WA690473 WA765301 |
| Clinig Caergwrle Tŷ Cerrig, Caergwrle, LL12 9EY | Rhydd-ddaliad | WA693356 | Caergwrle Clinic, Ty Cerrig, Caergwrle, LL12 9EY | Freehold | WA693356 |
| Clinig Cei Connah Canolfan Ddinesig, Lôn Wepre, Cei Connah,CH5 4HA | Rhydd-ddaliad | CYM199578 | Connahs Quay Clinic,Civic Centre, Wepre Drive, Connahs Quay, CH5 4HA | Freehold | CYM199578 |
| Clinig Pen y Ffordd Clos Melwood, Penyffordd, CH4 0NB | Rhydd-ddaliad | WA788256 | Pen y Ffordd Clinic, Melwood Close, Penyffordd, CH4 0NB | Freehold | WA788256 |
| Clinig Saltney, St David's Terrace, Saltney Ferry, Ger Caer, CH4 0AF | Rhydd-ddaliad | WA690467 | Saltney Clinic, St David's Terrace, Saltney Ferry, Nr Chester, CH4 0AF | Freehold | WA690467 |
| Clinig Sealand, 8 Rhodfa'r Cedrwydd, Sealand, CH5 1SE | Rhydd-ddaliad | WA690469 | Sealand Clinic, 8 Cedar Ave, Sealand, CH5 1SE | Freehold | WA690469 |
| Tŷ Catherine Gladstone, Ffordd Penarlâg, Mancot, CH5 2EP | Rhydd-ddaliad | WA693350 | Catherine Gladstone House, Hawarden Way, Mancot, CH5 2EP | Freehold | WA693350 |
| Clinig y Fflint, Borough Grove, Y Fflint, CH6 7DR | Rhydd-ddaliad | WA690454 | Flint Clinic, Borough Grove, Flint, CH6 7DR | Freehold | WA690454 |
| Clinig Maesglas Lôn yr Ysgol, Maesglas, Treffynnon, CH8 7HR | Rhydd-ddaliad | WA690456 | Greenfield Clinic, School Lane, Greenfield, Holywell, CH8 7HR | Freehold | WA690456 |
| Clinig Treffynnon, Lôn y Parc, Treffynnon, CH8 7UR | Rhydd-ddaliad | WA690458 | Holywell Clinic, Park Lane, Holywell, CH8 7UR | Freehold | WA690458 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Clinig Yr Wyddgrug Stryd y Brenin, Yr Wyddgrug, CH7 1LB | Rhydd-ddaliad | WA690460 | Mold Clinic, King Street, Mold, CH7 1LB | Freehold | WA690460 |
| Clinig Plas Madog, 51/52 Bodlyn, Ystâd Plas Madog, Acrefair, Wrecsam LL14 3HE | Les-ddaliad | | Plas Madoc Clinic, 51/52 Bodlyn, Plas Madoc Estate, Acrefair, Wrexham LL14 3HE | Leasehold | |
| Clinig Y Waun, Heol Yr Orsaf, Y Waun, LL14 5LS | Les-ddaliad | | Chirk Clinic, Station Avenue, Chirk, LL14 5LS | Leasehold | |
| Clinig Glyn Ceiriog, Ffordd Newydd, Glyn Ceiriog, LL20 7HH | Les-ddaliad | WA884305 | Glyn Ceiriog Clinic, New Road, Glyn Ceiriog, LL20 7HH | Leasehold | WA884305 |
| Canolfan Iechyd Owrtyn, Stryd Fawr, Owrtyn, LL13 0ED | Les-ddaliad | | Overton Health Centre, High Street, Overton, LL13 0ED | Leasehold | |
| Clinig Hightown, Hightown, Wrecsam, LL12 0TR | Les-ddaliad | CYM26758 | Hightown Wrexham Health Centre, Hightown, Wrexham, LL12 0TR | Leasehold | CYM26758 |
| Clinig Ewlo, Woodside Close, Ewlo, CH5 3RP | Les-ddaliad | WA559996 | Ewloe Clinic, Woodside Close, Ewloe, CH5 3RP | Leasehold | WA559996 |
| Clinig Coedllai, Stryd Y Brenin, Coedllai CH7 4RG | Les-ddaliad | CYM26748 | Leeswood Clinic, Queen Street, Leeswood CH7 4RG | Leasehold | CYM26748 |
| Clinig Mynydd Isa, Mercia Drive, Mynydd Isa, CH7 6UH | Les-ddaliad | CYM26760 | Mynydd Isa Clinic, Mercia Drive, Mynydd Isa, CH7 6UH | Leasehold | CYM26760 |
| Canolfan Iechyd Pen Y Maes, Stryd Y Ffawydd, Bryn Hyfryd , LL11 4UF | Les-ddaliad | | Pen Y Maes Health Centre, Beech Street, Summerhill, LL11 4UF | Leasehold | |
| Clinig Y Fferi, Campws Y Fferi, Gorllewin Ffordd Caer, Y Fferi, CH5 1SE | Les-ddaliad | | Queensferry Clinic, Queensferry Campus, Chester Road, Queensferry, CH5 1SE | Leasehold | |
| **Unedau Iechyd Meddwl** | | | **Mental Health Units** | | |
| 16 - 18 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DU | Rhydd-ddaliad | WA703732 WA708392 | 16-18 Grosvenor Road, Wrexham, LL11 1DU | Freehold | WA703732 WA708392 |
| Canolfan Gynghori Glannau Dyfrdwy, Rhodfa Rowley, Shotton, CH5 1PP | Rhydd-ddaliad | WA690470 | Deeside Counselling Centre, Rowleys Drive, Shotten, CH5 1PP | Freehold | WA690470 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| The Elms, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1BT | Rhydd-ddaliad | WA783179 | The Elms, Rhosddu Road, Wrexham, LL11 1BT | Freehold | WA783179 |
| Tŷ Celyn, Parc Busnes Acorn, Y Fflint, CH6 5YN | Les-ddaliad | | Ty Celyn Flint, Acorn Industrial Estate, Flint, CH6 5YN | Leasehold | |
| Evolution Building, Ewlo, 1st Floor Suite, 1 Evolution, Parc Busnes Lakeside, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3XP | Les-ddaliad | | Evolution Building, Ewloe, 1st Floor Suite, 1 Evolution, Lakeside Business Park, St David's Park, Ewloe, CH5 3XP | Leasehold | |
| C.D.S. 7 Ffordd Brighton, Rhyl, LL18 3EY | Les-ddaliad | | C.D.S.7 Brighton Road, Rhyl, LL18 3EY | Leasehold | |
| **Tir** | | | **Land** | | |
| Tir Tŷ'r Eos, Ffordd Caer, Wrecsam, LL11 2SJ | Rhydd-ddaliad | WA7884910 | Nightingale House Land, Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ | Freehold | WA7884910 |
| Tir Plas Madog, Ffordd Y Parc, Rhosymedre. | Rhydd-ddaliad | WA593623 | Plas Madoc Land, Park Road, Rhosymedre, Nr Wrexham | Freehold | WA593623 |
| **Arall** | | | **Other** | | |
| Villa Romano, Ffordd y Gelli, Wrecsam LL11 1DY | Les-ddaliad | | Villa Romano, Grove Road, Wrexham LL11 1DY | Leasehold | |
| HSDU, Uned A, Parc Technoleg Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD | Les-ddaliad | | HSDU, Unit A, Wrexham Technology Park, Croesnewydd Road, Wrexham, LL13 7TD | Leasehold | |
| Tŷ Clwydian, Block B, Tŷ Clwydian, Parc Technoleg Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7TD | Les-ddaliad | | Clwydian House, Block B, Clwydian House, Wrexham Technology Park, Croesnewydd Road, Wrexham LL13 7TD | Leasehold | |

## ATODLEN 2

Erthygl 3(c)

Cronfa Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru (gan gynnwys is-elusennau) — Rhif 1051063

## SCHEDULE 2

Article 3(c)

The North East Wales National Health Service Trust Charitable Fund (including all subsidiary charities) — Charity Number 1051063

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 Rhif 1721 (Cy.167)

# 2008 No. 1721 (W.167)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-ddwyrain Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

The North East Wales National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

©℗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W339/07/08 ON